Care and Repair Scotland

Care & Repair Cymru

# GWELLA CARTREFI I NEWID BYWYDAU

Maniffesto Etholiad 2024 gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio o bob rhan o'r Deyrnas Unedig



# Mae mwy o bobl dros 65 oed nag sydd o bobl dan 15 yn y Deyrnas Unedig

Bob dydd mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio ar draws y Deyrnas Unedig yn gweld pobl hŷn yn byw mewn tai heb fod yn addas nac yn ddiogel, heb fawr o gyfleoedd i gael iawn neu i wella eu sefyllfa.

Mae ein poblogaeth heneiddiol yn golygu fod yn rhaid i lywodraeth ar draws y DU weithredu nawr i sicrhau y gallwn gefnogi pobl hŷn i barhau'n fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

## Am Gofal a Thrwsio

Gofal a Thrwsio yw hyrwyddwr tai pobl hŷn. Rydym yn gwella cartrefi i newid bywydau. Nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn:

- Fyw mewn cartref anaddas ar gyfer eu hanghenion
- Mynd yn wael oherwydd eu bod yn byw mewn tŷ oer
- Byw mewn tŷ sy'n beryglus neu heb fod yn ffit i fyw ynddo
- Bod heb yr addasiadau angenrheidiol i'w helpu i fyw'n annibynnol gydag urddas, yn eu cartrefi eu hunain.

Mae canghennau Gofal a Thrwsio mewn cymunedau ar draws pob cenedl yn y DU. Mae ein gwasanaeth ymweld â chartrefi yn golygu ein bod yn deall anghenion tai pobl hŷn. Mae ein Hasiantaethau wedi addasu dros gyfnod i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau tasgmyn, addasiadau tai bach i fawr, mesurau gwella cartrefi yn cynnwys gwres fforddiadwy a chyflymu rhyddhau o ysbyty, a gwybodaeth a chyngor.

## YR ALBAN
Dros 1 miliwn o bobl 65+ oed.

34% o'r holl aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 65+ oed

70% o dderbyniadau argyfwng i ysbyty yn bobl 65+ oed

Gall dynion fyw i 60.9 oed a menywod i 61.8 oed mewn iechyd da.[ii]

## GOGLEDD IWERDDON
Mae 17% o bobl Gogledd Iwerddon yn 65+ oed.

Disgwylir i fenywod fyw 20.7 blwyddyn ar ôl 65 ond dim ond 9 o'r blynyddoedd hyn yn rhydd o anabledd.

Mae eiddilwch 3x gwaith yn fwy cyffredin mewn pobl 60+ yng Ngogledd Iwerddon nag yng Ngweriniaeth Iwerddon.

Mae gan 18% o bobl dros 50 oed ddau neu fwy o glefydau cronig[i]




## CYMRU
21.4% o'r boblogaeth yn 65+ oed.

Pobl 65+ oed yn ffurfio dros 45% o aelwydydd un person.

77% o bob galwad i Wasanaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer pobl 65+ oed

49% o bobl 75+ oed heb fod ar-lein yng Nghymru[iii]

## LLOEGR
Dros 10 miliwn o bobl 65+ oed.

1.6m o bobl 65+ oed ag anghenion heb eu diwallu am ofal a chymorth.

40% o oedolion 65+ oed yn dweud fod ganddynt salwch hirsefydlog sy'n cyfyngu ar eu bywyd.

Bydd 1 mewn 3 oedolyn 65+ oed yn syrthio eleni; syrthio yw'r prif reswm am dderbyn i ysbyty yn y grŵp oedran yma[iv]

# Ein Maniffesto Etholiad y DU 2024

Rhaid i lywodraeth nesaf y DU i sicrhau fod y Deyrnas Unedig yn genedl sy'n grymuso a darparu dewis tai i'w phoblogaeth heneiddiol.

Mae'n rhaid i ni ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau tai sy'n wynebu pobl hŷn fel y gallant fyw yn urddasol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y dewisant. Rhaid i gartrefi fod yn gynnes, diogel a chyfleus ac y gellir eu haddasu ar hyd cwrs bywyd.

Mae Gofal a Thrwsio ar draws y DU yn credu y dylai llywodraeth nesaf y DU:

1. GYNNWYS HAWL I DAI DIGONOL YNG NGHYFRAITH Y DU
2. DILEU'R LOTERI COD POST AR GYFER ADDASIADAU TAI
3. GWEITHREDU GRANT RHWYD DDIOGELWCH AR GYFER GWAITH GALLUOGI
4. DIOGELU GWASANAETHAU YMWELD Â CHARTREFI A GWYBODAETH HYGYRCH

# 1. CYNNWYS HAWL I DAI DIGONOL YNG NGHYFRAITH Y DU

Mae'r DU eisoes wedi llofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sy'n cynnwys hawl i gartref digonol. Fodd bynnag, yr Alban yw'r unig genedl yn y Deyrnas Unedig sydd â hawl y gellir ei weithredu'n statudol i dai drwy ymgorfforiad uniongyrchol o'r hawliau hyn.

- Cynnwys hawl i gartref digonol yn y gyfraith i wella amodau tai ar gyfer pobl hŷn a diogelu stoc tai y Deyrnas Unedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gosod isafswm safonau clir ar gyfer cyflwr tai sector preifat.

Addas i fyw ynddynt: Nid yw tai yn ddigonol os nad ydynt yn gwarantu diogelwch corfforol neu'n rhoi gofod digonol, yn ogystal â diogelu rhag yr oerfel, lleithder, gwres, glaw, gwynt, bygythiadau eraill i iechyd a pheryglon strwythurol.

Hygyrchedd Nid yw tai yn ddigonol os na roddir ystyriaeth i anghenion pobl grwpiau sydd dan anfantais ac ar y cyrion.

Diogelwch daliadaeth: Nid yw tai yn ddigonol os nad oes gan y rhai sy'n byw ynddynt sicrwydd daliadaeth sy'n rhoi amddiffyniad cyfreithiol rhag gorfodaeth



# 2. DILEU'R LOTERI COD POST AR GYFER ADDASIADAU TAI

Mae tystiolaeth fod addasu tai yn arbed arian i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.[v] Er hyn, mae mynediad i addasiadau tai yn amrywio ar draws y pedair cenedl, ac ar draws awdurdodau lleol. Ni chredwn y dylai lle'r ydych yn byw yn y DU effeithio ar eich mynediad i'r addasiadau rydych eu hangen i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eich cartref eich hun.

- Dylai pob awdurdod lleol gael targed ar gyfer tai hygyrch a seiliwyd ar anghenion lleol.
- Neilltuo buddsoddiad mewn addasiadau tai gan ragweld ein cymdeithas heneiddiol i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain a sicrhau mynediad teg lle bynnag yn y DU y mae pobl yn byw.
- Cyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu debyg ar draws pob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig.

## Mae addasu cartrefi yn atal pobl rhag gorfod cael eu derbyn i ysbyty ac oedi mynediad i ofal preswyl.

Dangosodd ymchwil hydredol gan Brifysgol Abertawe a Care & Repair Cymru rhwng 2009-2017 fod pobl rhwng 65-90 oed:

- 17% yn llai tebygol o orfod mynd i ysbyty oherwydd syrthio os oedd eu cartrefi wedi eu haddasu.
- Dim yn gweld eu risg o syrthio'n cynyddu'n flynyddol, yn wahanol i'r rhai nad oedd eu cartrefi wedi eu haddasu.
- Llwyddo i ohirio eu mynediad i ofal preswyl dros gyfnodau o 1 flwyddyn, 3 blynedd a 5 mlynedd.[v]

# 3. GWEITHREDU RHWYD DDIOGELWCH AR GYFER GWAITH GALLUOGI

Mae pobl hŷn sy'n byw mewn tai gwael yn parhau i golli allan ar gynlluniau effeithiolrwydd ynni a gyllidir gan y llywodraeth a chynlluniau lleol, gan olygu eu bod mewn risg o gael eu gadael ar ôl yn yr ymgyrch i sicrhau cartrefi sero net.

- Cynnwys gwaith galluogi o fewn cynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth tebyg i ECO4 fel nad yw pobl hŷn sy'n byw mewn tai mewn eiddo gwael yn colli allan ar effeithiolrwydd ynni a gwelliannau cartref.



Astudiaeth Achos

Mae Mr Thomas yn 79 oed, yn byw ar ben ei hun ac yn byw uwchben siop barbwr y mae'n berchen arni ac yr arferai ei rhedeg.

Nid oes trydan digonol a dim gwres yn y cartref, yn bennaf oherwydd difrod difrifol a achoswyd gan ddŵr o do yn gollwng.

Ar ôl dod â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ynghyd i drafod yr opsiynau gorau, sicrhaodd gweithwyr achos Gofal a Thrwsio gyllid i drwsio'r to. Cafwyd cyllid ychwanegol i drwsio'r systemau trydanol yn yr eiddo.

Fe wnaeth cwblhau'r gwaith trwsio hwn alluogi'r gweithiwr achos i wneud cais am system wresogi newydd ar ran y cleient i sicrhau fod yr eiddo yn cefnogi byw annibynnol mewn amgylchedd cynnes a diogel.

# 4. DIOGELU GWASANAETHAU YMWELD Â CHARTREFI A GWYBODAETH HYGYRCH

Er bod 99% o oedolion 16-44 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd bob dydd, nid yw dros 1 ym mhob 3 o bobl dros 65 oed ym Mhrydain Fawr yn gwneud hynny. Nid yw bron 1 mewn 4 wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf.[vi] Mae gwasanaethau ymweld â chartrefi yn hanfodol ar gyfer pobl hŷn, sy'n aml yn betrus wrth hysbysu am broblemau gyda'u heiddo. Yn Gofal a Thrwsio, yn aml bydd galw allan am broblem fach yn datgan llu o broblemau eraill gyda'r eiddo. Rydym yn credu fod yn rhaid i Lywodraeth y DU:

- Adnabod pwysigrwydd gwasanaethau ymweld â chartrefi ar gyfer pobl nad ydynt ar-lein.
- Diogelu gwasanaethau ymweld â chartrefi a gweithio gyda Gofal a Thrwsio i ddeall yn well y cyfleoedd i gasglu data ar iechyd a thai y mae gwasanaethau ymweld â chartrefi yn eu cynnig.
- Sicrhau nad yw cynlluniau a gefnogir gan y Llywodraeth yn disodli cyrff trydydd sector sy'n cynnig gwasanaethau ymweld â chartrefi.

"Ar ran fy mam, hoffwn fynegi ein diolch i chi am eich help a chefnogaeth ddibendraw wrth wella ei chartref. .. mae safon eu gwaith yn rhagorol. Roeddent mor ystyriol, meddylgar a pharod i helpu" Cleient Gofal a Thrwsio Cwm Taf

"Nododd adborth gan bobl hŷn pa mor hanfodol fu Gofal a Thrwsio, yn arbennig mewn elfennau rheoli prosiectau mwy anodd tebyg i ddelio gyda chontractwyr". Age Scotland[vii]

## Cefnogir y maniffesto hwn gan:

Care & Repair Cymru

Care and Repair Scotland

## Cyswllt

Care & Repair Scotland
www.careandrepairscotland.co.uk
CareRepScotland@outlook.com

Care & Repair Cymru
www.careandrepair.org.uk
enquiries@careandrepair.org.uk

## Llyfryddiaeth

[i] https://publichealth.ie/sites/default/files/2023-02/wp-content/uploads/2020/04/20200416-AGEING-PUBLIC-HEALTH-MAIN.pdf
[ii] Scotland's Census 2022 - Rounded population estimates | Scotland's Census (scotlandscensus.gov.uk); Age-Scotland-Briefing-Older-People-in-Scotland-October-2023.pdf (povertyalliance.org); Health and social care strategy for older people: consultation analysis - gov.scot (www.gov.scot)
[iii] Cymru cyfeillgar i oedran: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio [HTML] | LLYW.CYMRU; Cylchlythyr Demograffeg Ystadegau Cymru: Mawrth 2023 | LLYW.CYMRUS
[iv] Our Ageing Population | The State of Ageing 2023-24 | Centre for Ageing Better (ageing-better.org.uk); age_uk_briefing_state_of_health_and_care_of_older_people_july2023.pdf (ageuk.org.uk); Social care for older adults - NHS Digital; Falls later in life (ageuk.org.uk)
[v] Do home modifications reduce care home admissions for older people? A matched control evaluation of the Care & Repair Cymru service in Wales | Age and Ageing | Oxford Academic (oup.com); Do home adaptation interventions help to reduce emergency fall admissions? A national longitudinal data-linkage study of 657,536 older adults living in Wales (UK) between 2010 and 2017 | Age and Ageing | Oxford Academic (oup.com)
[vi] Internet access – households and individuals, Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)
[vii] making-adaptations-work-for-older-people-in-scotland---age-scotland---university-of-stirling---may-2023.pdf (ageuk.org.uk)

Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrstredig (Rhif 1163542)
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif 09574555).